**Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**

**Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern 2023-24 – Prifysgol Wrecsam a'i His-gwmnïau**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol. Gall caethwasiaeth fodern ddigwydd ar sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, llafur dan orfod a llafur gorfodol, a masnachu pobl. Rhywbeth sy'n gyffredin i'r ffurfiau hyn i gyd yw amddifadu pobl o'u rhyddid er mwyn camfanteisio arnynt er budd personol neu fasnachol.
Mae'r term Caethwasiaeth Fodern yn cynnwys gwahanol fathau o gamfanteisio, gyda llawer ohonynt yn digwydd ar yr un pryd. Bydd unigolyn mewn caethwasiaeth:

- Os caiff ei orfod i weithio – trwy ddefnyddio bygythiadau meddyliol neu gorfforol.
- Os yw 'cyflogwr' yn berchen arno ac yn ei reoli, fel arfer trwy ddefnyddio camdriniaeth feddyliol neu gorfforol neu trwy fygwth camdriniaeth.
- Os caiff ei ddad-ddyneiddio, os caiff ei drin fel nwydd neu os caiff ei brynu neu ei werthu fel 'eiddo'.
- Os caiff ei gyfyngu'n gorfforol neu os gosodir cyfyngiadau ar ei ryddid i symud.

1.2 Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i wella'i harferion er mwyn mynd i'r afael â chaethwasiaeth a masnachu pobl.

**1.3 Cyflwynir y datganiad hwn yn unol ag adran 54(1) o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Dyma ddatganiad Prifysgol Wrecsam ar gaethwasiaeth a masnachu pobl ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023 ac mae'n cwmpasu'r Brifysgol a'i His-gwmnïau.**

## 2. Strwythur y sefydliad

2.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn darparu Dysgu, Addysg ac Ymchwil yn y Sector Addysg Uwch.

2.2 Gellir olrhain gwreiddiau'r Brifysgol i 1887 pan ddechreuodd Ysgol Gwyddoniaeth a Chelf Wrecsam gyflwyno addysg. Dechreuodd gynnig graddau gan Brifysgol Llundain ym 1892.

2.3 Newidiwyd enw'r sefydliad sawl gwaith. Yn 2008, dechreuwyd galw Sefydliad Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn Brifysgol Glyndŵr, gan ei gwneud yn un o'r prifysgolion ieuengaf yn y DU. Ym mis Chwefror 2023, ar ôl cael cymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor, newidiodd y Brifysgol ei henw, a bellach fe'i gelwir yn Brifysgol Wrecsam / Wrexham University.

2.4 Mae'r Brifysgol yn cynnig addysg i bobl o ogledd-ddwyrain Cymru a'r ardal drawsffiniol, felly mae ganddi rôl hollbwysig ym mywyd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol y rhanbarth. Mae hefyd yn denu nifer o fyfyrwyr o rannau eraill o'r DU a'r byd. Mae'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr lleol er mwyn sicrhau bod ganddynt fynediad at weithlu sy'n meddu ar sgiliau a chymwysterau addas, a hefyd mae'n cynnig gwasanaethau ymchwil a datblygu mewn meysydd arbenigol.

2.5 Caiff y Brifysgol ei chydnabod yn eang fel un o brifysgolion arweiniol y DU ar gyfer cefnogi myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

2.6 Mae myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn rhan bwysig o boblogaeth myfyrwyr y Brifysgol. Mae nifer fawr o'r myfyrwyr hyn yn siaradwyr Cymraeg neu'n dymuno gwella'u sgiliau Cymraeg, ac mae'r Brifysgol yn ailddatgan ei hymrwymiad i hwyluso hyn. Mae Prifysgol Wrecsam yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyflawni hyn. Bydd hyn yn golygu datblygu adnoddau a chymorth ychwanegol, gwella rhaglenni astudio academaidd a lleoliadau gwaith. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gyflawni ei rhwymedigaethau dan Safonau'r Gymraeg.

2.7 Daw'r mwyafrif llethol o fyfyrwyr y Brifysgol i brif gampws y Brifysgol ar Ffordd yr Wyddgrug yn Wrecsam; ond mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu ar gampws Stryd y Rhaglyw yn Wrecsam a safleoedd yn Llanelwy, Llaneurgain a Brychdyn.

2.8 Mae gan y Brifysgol drosiant blynyddol byd-eang o £47 miliwn.

## 3. Cadwyni cyflenwi

3.1 Mae'r Brifysgol yn gwario oddeutu £19 miliwn yn flynyddol gyda nifer o gyflenwyr sy'n darparu amrywiaeth eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod ei chadwyni cyflenwi'n ymestyn ar draws y byd ac y gallai rhannau o'r cadwyni cyflenwi hynny fod yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern. Adnoddau cyfyngedig sydd gan y Brifysgol ar gyfer monitro a rheoli ei chadwyni cyflenwi, ac felly bydd y Brifysgol yn canolbwyntio ar ei chyflenwyr uniongyrchol a bydd yn mynnu bod ei chyflenwyr yn sicrhau nad yw eu cadwyni cyflenwi yn gysylltiedig â chaethwasiaeth fodern.

3.2 Mae'r sectorau risg uchel mewn perthynas â chaethwasiaeth fodern yn cynnwys amaethyddiaeth, hamdden, lletygarwch, arlwyo, glanhau, dillad, adeiladu a gweithgynhyrchu. Dangosodd adolygiad o wariant y Brifysgol fod y Brifysgol yn defnyddio cytundebau fframwaith cenedlaethol neu ranbarthol ar gyfer y mwyafrif o'r meysydd gwariant risg uchel, ac ystyrir bod caethwasiaeth fodern a masnachu pobl gan ei chyflenwyr uniongyrchol yn risg isel.

3.3 Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod ei chyflenwyr uniongyrchol yn ymwybodol o ymrwymiad y Brifysgol i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a'u bod yn deall eu rhwymedigaeth fel cyflenwyr neu gontractwyr y Brifysgol.

3.4 Mae'r Brifysgol wedi datblygu templedi Gwahoddiad i Dendro newydd, sydd bellach yn cynnwys cwestiynau priodol yn ymwneud â chyflogaeth foesegol a chaethwasiaeth fodern yn ogystal â chwestiynau ynglŷn ag arferion gweithio Teg.

3.5 Fel aelod o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i Offeryn Ymgysylltu â Chyflenwyr NET Positives er mwyn inni allu ymateb yn rhagweithiol i'r Ddeddf Caethwasiaeth Fodern yn ein cadwyni cyflenwi. Mae'r offeryn hwn yn dehongli'r ymrwymiad i ddileu Caethwasiaeth Fodern mewn termau ehangach nag a nodir yn y Ddeddf ac mae'n annog yr holl gyflenwyr, ni waeth be fo'u trosiant blynyddol, i wneud ymrwymiad cyhoeddus i weithredu yn erbyn Caethwasiaeth Fodern. Mae'r offeryn yn ein galluogi i ddeall canran y cyflenwyr sy'n cydnabod bod Caethwasiaeth Fodern yn broblem i'w busnes, a hefyd mae'n ein galluogi i bennu camau y dylai'r cyflenwyr eu cymryd i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a chanfod y cyflenwyr hynny nad ydynt yn cydnabod bod Caethwasiaeth Fodern yn ystyriaeth.

3.6 Yn ystod 2022/23, roedd gan 466 (61%) o gyflenwyr y Brifysgol gynlluniau gweithredu ar yr Offeryn Ymgysylltu â Chyflenwyr. Mae hyn yn dangos:

- Bod 100% o'r cyflenwyr wedi nodi eu bod yn ymwybodol o Gaethwasiaeth Fodern;
- Bod 74% o'r cyflenwyr wedi nodi eu bod wedi gwneud ymrwymiad cyhoeddus i gymryd camau yn erbyn Caethwasiaeth Fodern;
- Bod 29% wedi dweud bod mwy na 25% o'r nwyddau/gwasanaethau a gyflenwir ganddynt yn dod oddi allan i Ewrop.
- Bod 100% o'r cyflenwyr sydd mewn categorïau risg uchel (C – Cyflenwadau a Gwasanaethau Arlwyo, F – Dodrefn, Eitemau Dodrefnu a Thecstilau, K – Cyflenwadau

a Gwasanaethau Cyfrifiadurol, W – Ystadau ac Adeiladau) wedi dweud eu bod yn ymwybodol o Gaethwasiaeth Fodern.

- Bod 28% o'r cyflenwyr wedi dewis cyhoeddi datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern er eu bod islaw'r trothwy ariannol.
- Bod 99% o'r cyflenwyr wedi dweud na chafwyd unrhyw achos o Gaethwasiaeth Fodern a bod y cyflenwr a oedd ar ôl wedi dweud ei fod wedi datrys y broblem a oedd yn bodoli.
- Bod gan 68% o'r cyflenwyr drefn ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau Caethwasiaeth Fodern.

## 4. Polisïau ar gaethwasiaeth a masnachu pobl

4.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau na cheir caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn ei chadwyni cyflenwi nac yn unrhyw ran o'i busnes (cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl).

4.2 Yng ngoleuni'r rhwymedigaeth i adrodd am fesurau er mwyn sicrhau bod holl rannau ei busnes a'i holl gadwyni cyflenwi yn rhydd o gaethwasiaeth, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei pholisïau a'i gweithdrefnau ar gyfer y gweithle er mwyn asesu pa mor effeithiol ydynt o ran canfod caethwasiaeth fodern ac ymdrin â chaethwasiaeth fodern.

4.3 Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn dangos ymrwymiad y Brifysgol i weithredu'n foesegol a chydag uniondeb yn ei holl gydberthnasau busnes, ynghyd ag ymrwymiad i weithredu a gorfodi systemau a mesurau rheoli effeithiol er mwyn sicrhau na cheir caethwasiaeth fodern na masnachu pobl yn unrhyw le yn ei chadwyni cyflenwi (cyn belled ag y bo'n rhesymol bosibl).

4.4 Mae'r Brifysgol yn gweithredu'r polisïau canlynol sy'n cyfrannu at ei dull o atal caethwasiaeth a masnachu pobl yn ei gweithrediadau.

**4.4.1 Polisi chwythu'r chwiban.** Mae'r polisi hwn yn cynnig mesurau diogelu er mwyn galluogi'r staff i grybwyll pryderon ynglŷn â chamymarfer sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Wrecsam. Y nod yw cynnig dull cyflym lle gellir crybwyll pryderon gwirioneddol yn fewnol heb ofni ôl-effeithiau, hyd yn oed pe bai'r pryderon yn cael eu crybwyll ar gam. Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gadw at y safonau uchaf o ran gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd, ac mae'n annog ei staff i fynd ati cyn gynted ag y bo'n ymarferol i grybwyll pryderon gwirioneddol ynglŷn â chamymarfer, gan wybod y bydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif ac y bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal. Mae camymarfer yn fater a gymerir o ddifrif yn y Brifysgol.

**4.4.2 Cod ymddygiad i weithwyr.** Caiff y cod hwn ei ymgorffori mewn Siarter Staff. Yn y Siarter, mae'r Brifysgol yn pennu'r hyn sy'n ddisgwyliedig o'i staff, ac yn bwysicach fyth, mae'n rhannu ymrwymiadau'r Brifysgol gyda'i staff.

**4.4.3 Polisi Recriwtio a Dethol.** Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddenu a chadw staff o'r radd flaenaf a all wneud cyfraniad gwerthfawr at lwyddiant parhaus y Brifysgol. Gyda'i gilydd, mae'r Polisi a'r Weithdrefn ar Recriwtio a Dethol Staff yn cynnig fframwaith ar gyfer cyflawni rhagoriaeth ym mhob agwedd ar arferion recriwtio'r Brifysgol.

**4.4.4 Polisi Caffael.** Bydd swyddogaeth gaffael Prifysgol Wrecsam yn cynnig arbenigedd caffael proffesiynol i Fwrdd y Llywodraethwyr, i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r staff. Bydd yn cyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ac amcanion y Bwrdd a bydd yn parhau i dynnu sylw at gaffael trwy'r Brifysgol, gan sicrhau y gellir diwallu anghenion busnes y Bwrdd trwy'r ffordd y caiff nwyddau, gwasanaethau a gwaith eu prynu a sicrhau bod nodau ac amcanion Polisi Llywodraeth Cymru wrth galon a chraidd ei gweithgareddau caffael. Hefyd, bydd yn cyfeirio at ofynion Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac amcanion amgylcheddol, cynaliadwy a moesegol y Brifysgol. Mae Cynghorydd Caffael Prifysgol Wrecsam yn aelod o Weithgor Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, a ffurfiwyd er mwyn cynnig fforwm ar gyfer trafod a gweithredu'r Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi ymhlith cymuned Sector Addysg Uwch Cymru. Bydd y swyddogaeth

Gaffael yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli a datblygu ei chyflenwyr a'i sylfaen gyflenwi, gan ganfod a rheoli unrhyw risgiau cyflenwi.

4.4.5 **Polisi Atal Llwgrwobrwyo.** Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau y ceir safonau uniondeb uchel ym mhob un o'i meysydd gweithredu ac y caiff ei holl fusnes ei gynnal mewn modd gonest a thryloyw. Fel sefydliad addysgol ac elusen sy'n cael cyfran helaeth o'i hincwm gan gronfeydd cyhoeddus, ar ffurf rhoddion a chan sefydliadau elusennol, mae'r Brifysgol yn awyddus i'w hamddiffyn ei hun a'i chyllidwyr, ei rhoddwyr, ei gweithwyr a'i myfyrwyr rhag y niwed sy'n gysylltiedig â llwgrwobrwyo a gweithgareddau llwgr eraill. Felly, mae wedi ymrwymo i atal llwgrwobrwyo a thwyll gan staff ac unrhyw drydydd parti sy'n cyflawni gwasanaethau ar gyfer neu ar ran y Brifysgol. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y bydd risgiau llwgrwobrwyo a thwyll yn deillio o amryfal gyd-destunau a bydd yn ceisio cynghori, hysbysu a/neu hyfforddi ei gweithwyr yn briodol fel y gallant asesu risgiau llwgrwobrwyo a thwyll a gweithredu arferion a fydd yn lleihau'r risg y bydd llwgrwobrwyo a thwyll yn digwydd neu'n peidio â chael eu canfod, pan na fo prosesau ar waith yn barod.

4.4.6 **Polisi Buddsoddi Moesegol Rheoli'r Trysorlys.** Wrth ddewis, cadw a gwireddu holl fuddsoddiadau'r trysorlys, mae'r Brifysgol yn ei gwneud yn ofynnol i'w swyddogion roi ystyriaeth briodol i ystyriaethau perthnasol sy'n ymwneud â llywodraethu corfforaethol, yn ogystal ag ystyriaethau cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol perthnasol. Mae Pwyllgor Strategaeth a Chyllid Bwrdd y Llywodraethwyr yn disgwyl y bydd hyn yn cael ei wneud mewn modd sy'n cyd-fynd ag amcanion buddsoddi a dyletswyddau cyfreithiol y Brifysgol.

4.4.7 **Datganiad Gwerth am Arian.** Mae Prifysgol Wrecsam yn cydnabod ei chyfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian yn ei holl weithgareddau, ni waeth sut y caiff y gweithgareddau hynny eu cyllido. Yn benodol, ceir dyletswydd gofal i sicrhau bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu gwario fel y bwriadwyd a bod gwerth da am arian yn cael ei gyflawni. Hefyd, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ym mhob un o'i gweithgareddau corfforaethol ac academaidd. Bydd yn ceisio rhoi arferion da ar waith a bydd yn ceisio ymgorffori egwyddorion gwerth am arian yn ei holl weithgareddau.

4.4.8 **Rheoliadau ar Arferion Ymchwil.** Mae Prifysgol Wrecsam yn dilyn Cod Ymarfer Swyddfa Unplygrwydd Ymchwil y DU ar gyfer Ymchwil, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2009. Mae'r Cod Ymarfer yn berthnasol i sefydliadau ymchwil ac ymchwilwyr, a bydd y Brifysgol yn ymdrechu i fodloni'r holl rwymedigaethau a osodir ar sefydliadau ymchwil gan y Cod. Yn achos pob gwaith ymchwil a gynhelir o fewn y Brifysgol neu dan nawdd y Brifysgol, bydd yn ofynnol cynnal adolygiad moesegol a chael cymeradwyaeth cyn y gellir dechrau casglu data. Yn achos y rhai a fydd yn arwain neu'n goruchwylio ymchwil sy'n ymwneud â chyfranogwyr dynol (yn cynnwys holiaduron, cyfweliadau, samplau dynol ac ymchwil glinigol ymhlith pethau eraill) neu anifeiliaid nad ydynt yn bobl, cyn dechrau ar yr ymchwil rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cael cymeradwyaeth gan Is-bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn unol â gofynion y Canllawiau RESC a fydd mewn grym ar y pryd, ynghyd ag adolygiad allanol a/neu gymeradwyaeth yn y maes astudio dan sylw.

4.4.9 **Polisi Cyflogaeth Foesegol.** Mae Prifysgol Wrecsam wedi datblygu polisi ysgrifenedig drafft yn ymwneud â Chyflogaeth Foesegol, sy'n cydymffurfio ag ymrwymiad 1 cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Fodd bynnag, nid yw'r polisi ysgrifenedig wedi cael ei gadarnhau eto er mwyn gallu ystyried canllawiau gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2023. Yn awr, mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswyddau caffael cymdeithasol gyfrifol ar amryw o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Er mwyn neilltuo digon o amser ar gyfer datblygu'r is-ddeddfwriaeth, y codau a'r canllawiau angenrheidiol, ac er mwyn i'r cyrff cyhoeddus sy'n berthnasol i'r ddeddf gael cyfle i ymgyfarwyddo â'r gofynion a gwneud y trefniadau angenrheidiol, ni fyddwn yn cyflwyno sylwadau ynghylch darpariaethau Rhan 3 tan ddiwedd 2024/dechrau 2025 fan gyntaf.

**4.4.10** Ar ôl inni gadarnhau a chymeradwyo'r polisi Cyflogaeth Foesegol, bydd yn cael ei gynnwys yn yr holl ddogfennau caffael.

## 5. Hyfforddiant

5.1 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddatblygu a chyflwyno hyfforddiant teilwredig i'w gweithwyr er mwyn eu gwneud yn fwy ymwybodol o bethau fel caethwasiaeth fodern, cam-drin hawliau dynol a chosbrestru. Bydd hyfforddiant yn cael ei gynnwys fel rhan o'r rhaglen hyfforddi gorfforaethol trwy ddefnyddio modiwlau hyfforddi e-ddysgu yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern a chyflogaeth foesegol mewn cadwyni cyflenwi. Mae'r swyddogaeth Gaffael a'r Adran Adnoddau Dynol wedi gweithio gyda'i gilydd i ganfod pa weithwyr sy'n gysylltiedig â phrynu / caffael a recriwtio a threfnu gweithwyr, fel y gellir rhoi hyfforddiant penodol iddynt yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern ac arferion cyflogaeth foesegol.

## 6. Gweithredu Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi

6.1 Er gwaethaf y meysydd a nodir yn y ddogfen hon, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithredu'r camau perthnasol sy'n gysylltiedig â'r 12 ymrwymiad allweddol a nodir yng Nghod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

## 7. Yn ystod Blwyddyn Ariannol 2023-24, bwriadwn wneud y canlynol:

- Parhau i ddefnyddio Offeryn Ymgysylltu â Chyflenwyr NET Positives fel y gellir mynd ati'n rhagweithiol i ddeall canran y cyflenwyr sy'n cydnabod bod Caethwasiaeth Fodern yn broblem i'w busnes, yn ogystal â phennu camau y dylai'r cyflenwyr eu cymryd i fynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a chanfod y cyflenwyr hynny nad ydynt yn cydnabod bod Caethwasiaeth yn ystyriaeth.

- Diweddaru a chyhoeddi ein Datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern yn flynyddol i adlewyrchu cynnydd ein camau.

**Dr Leigh Griffin**
**Cadeirydd, Bwrdd y Llywodraethwyr**
**Prifysgol Wrecsam**
**Dyddiad: 9 Tachwedd 2023**